

Y 'Taranwr', yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Llyfrau Gleision

Y 'Taranwr'

Porfa las y Rhoodee, yn noleniad y Ddyfrdwy ger Caer, oedd safle'r Eisteddfod Genedlaethol ym mis Medi 1866. Rhoddodd gohebydd y *Times* grynodedb o'r rhaglen arfaethedig, gan ddarogan yn hyderus:-

'The English and Welsh compositions in poetry promise to be very good. The musical part is also very prominent. On the whole this Eisteddfod promises to be in every aspect the most successful ever held in Wales.'⁽¹⁾

Roedd pethau'n argoeli'n dda, ond o fewn ychydig ddyddiau chwalwyd ei broffwydoliaeth gan ymosodiad ffyrnig ar yr Eisteddfod a'i holl weithiau mewn dwy ysgrif olygyddol yn y *Times*, y naill ar 8 Medi a'r llall, ar ôl i'r Eisteddfod ddod i ben, ar 14 Medi. Y 'Taranwr' [Thunderer] oedd ffugenw dychanol y *Times* ar y pryd, ond o weld natur y ddwy ysgrif byddai'n gyfleus a chryno i roi'r un ffugenw – Taranwr – i'w hawdur anhysbys. Ond cyn troi at yr ysgrifau rhaid esbonio ymddangosiad Matthew Arnold – y bardd, y llenor a'r arolygydd ysgolion – yn yr hanes.

Mae'n ymddangos i Arnold gael gwahoddiad i'r Eisteddfod, ond mewn llythyr at Hugh Owen, cadeirydd yr adran gwyddor cymdeithasol, ymddiheurodd am ei absenoldeb. Cyhoeddwyd ei lythyr yn y *Times* ar 6 Medi, a chafodd ymateb gyda'r troad. Awgrymodd y dylid trefnu deiseb i Brifysgol Rhydychen sefydlu cadair Geltaidd. Rhybuddiodd rhag y perygl o godi gwrychyn gwŷr ymarferol ['practical men'] trwy rwystro ymlediad yr iaith Saesneg yng Nghymru. Honnodd y rhagorai sensitifrwydd ac ysbrydolrwydd y Cymry dros Philistiaeth dosbarth canol Lloegr. Ac wrth gloi awgrymodd yn fentrus y gallai plant Taliesin ac Osian fanteisio ar y cyfle i efelychu gorchest y Groegiaid ac i oresgyn eu gorchfygwyr.⁽²⁾

Yr ysgrif gyntaf

O fewn deuddydd cyhoeddodd y *Times* ysgrif olygyddol faith, yn ymosod yn ddirugaredd ar gynnwys llythyr Arnold, ac yn ymestyn ei llid i'r Eisteddfod.⁽³⁾ Drwyddi draw roedd arddull a geirfa Taranwr yn unbennaidd, a weithiau yn eithafol. Yr iaith Gymraeg oedd ei brif gocyn hitio, a'i fyrdwn oedd y rheidrwydd i'w rhoi o'r neilltu a gosod Saesneg yn ei lle. Mewn 1,700 o eiriau rhagfarnllyd llwyddodd i ddilorni'r Eisteddfod Genedlaethol, yr iaith Gymraeg a'r genedl Gymreig. Rhedai nifer o themâu drwy'r llif geiriau. Dechreuodd trwy wawdio defodau'r Eisteddfod, rhywbeth eithaf cyffredin yn y wasg Saesneg ar y pryd. Aeth ymlaen i geryddu'r Eisteddfod am hybu'r iaith Gymraeg a llên Cymru, gan brotestio bod yr ymdrechion hyn yn

ddrygionus a sentimental. Ac yna aeth at wreiddyn y mater, sef bod yr iaith Gymraeg yn felltith i'r Cymry, a'i bod yn ynysu'r werin o wareiddiad a ffyniant materol eu cymdogion yn Lloegr. I bob pwrpas, meddai, roedd yr iaith Gymraeg yn farw. Rhaid i'r Cymry anghofio eu hiaith blwyfol a throi i siarad Saesneg a dim arall. Daeth Arnold dan y lach hefyd, ac wfftiwyd ei lythyr at Hugh Owen yn swta. Rhoddodd ei awgrym i yrru dirprwyaeth neu ddeiseb i Rydychen gyfle i Taranwr roi bonclust iddo a dangos ei ddawn fel digrifwr:-

'Now we are quite willing to believe that this effusion from the Professor of Poetry at Oxford may have been too absurd even for the bards and other enthusiasts who assembled under the banner of the red Dragon'⁽⁴⁾

A mewn man arall, wedi cael ei wynt yn ôl a mynd i hwyl, mynegodd fod Arnold yn fwy o Gymro na'r Cymry.

Yr Eisteddfod yn ymateb

Roedd angen ymateb cadarn, a'r gŵr a ddewiswyd oedd Talhaiarn (John Jones, 1810-69), y dywedwyd amdano –

'No one enjoyed the thought of being victimised as much as he.'⁽⁵⁾

Mae'n bosibl mai ei flynyddoedd fel pensaer yn Lloegr, a'i brofiad o ysgrifennu Saesneg, oedd yn gyfrifol am ei ddewis, ond ni chafodd yr Eisteddfod wron cadarn. Agorodd ei lythyr at y golygydd yn Ilipa, gan ddyfynnu'n faith o ddogfen gyhoeddwyd gan Gyngor yr Eisteddfod dri mis ynghynt. Yna trodd at orchymyn Taranwr i'r Cymry anghofio eu mamiaith a throi i siarad dim ond Saesneg, a gofynnodd braidd yn ddiniwed:-

'How is this to be done? You cannot turn them into bed at night as Welshmen, and awake them in the morning as Englishmen. A language cannot be acquired in a week, a month or a year.'⁽⁶⁾

Serch hynny, llwyddodd i gloi yn frwdfrydig, gan gyfeirio at 'ymlyniad cariadus y Cymry at eu heniaith'.

Yr ail ysgrif

Prif effaith cyfraniad Talhaiarn oedd i godi gwrychyn Taranwr. Cyhoeddwyd ei lythyr ar 14 Medi, ac yn yr un rhifyn o'r *Times* cyhoeddwyd *riposte* Taranwr ar ffurf ysgrif olygyddol eithriadol o ffyrnig a difriol.⁽⁷⁾ Ymosododd ar bob dadl, gan geisio eu chwalu air am air. Roedd ei neges yn syml: rhaid i'r Cymry anghofio eu hiaith a throi yn Saeson uniaith. Ymddengys nad oedd Taranwr yn gyfarwydd â'r enghreifftiau o ddwyieithrwydd a fodolai yn nifer o wledydd Ewrop, a seiliodd ei feirniadaeth ar y camresymiad y byddai hybu'r Gymraeg yn rhwystro ymlediad Saesneg yng Nghymru. Ni chafodd 'ymlyniad cariadus y Cymry at eu heniaith' wrandawriad: drygioni a ffolineb

aruthrol ydoedd, meddai Taranwr yr unben. Un arall o'i dargedau oedd cerddoriaeth a barddoniaeth y Cymry, ac yn ei lythyr llwyddodd Talhaiarn i ail gynnau'r tân, gan hawlio bod Handel a rhai o gerddorion mwyaf Lloegr a'r Cyfandir yn canmol alawon y Cymry. Denodd hyn ergyd arall gan Taranwr, o blaned arall i bob golwg. Ni chyfrannodd barddoniaeth a cherddoriaeth y Cymry ronyn i'w gwareiddiad taranodd: roeddynt ymhell ar ei hôl hi mewn cymhariaeth â Lloegr a'r Alban.

Ymateb y Faner

Mae'n annhebyg i'r dadwrdd hwn gyrraedd lygaid llawer o'r Eisteddfodwyr, ond fe'i gwelwyd gan lygaid craff golygydd *Y Faner*. Cyhoeddwyd ymateb cynhwysfawr, yn rhoi sylw arbennig i'r sylwadau gwatwarus am yr Eisteddfod, y gorchymyn i'r Cymry anghofio'u hiaith, a'r cyhuddiadau o anfoesoldeb.⁽⁸⁾ Meddai'r *Faner* :

'Y brif wrthddadl sydd gan y *Times* yn erbyn yr Eisteddfod, ydyw ei bod yn attalfa ar ffordd lledaeniad yr iaith Saesoneg yn y Dywysogaeth, ac felly yn anghymwysu y trigolion i symmud yn mlaen yn y byd.....ac y mae yn rhaid fod y dyn a wnelo y fath haeriad yn dra anwybodus o wir sefyllfa pethau, o blegid y mae yn ffaith fod miloedd lawer o'n cyd-wladwyr yn llanw rhai o'r sefyllfaoedd mwyaf ennillfawr ac anrhydeddus yn Liverpool, Manchester, Bristol a phrif drefydd ereill y deyrnas.'

Yr honiad o anfoesoldeb y Cymry oedd y sarhad mwyaf, ac atebodd *Y Faner* yn gadarn:

'Yr ydym yn y modd mwyaf penderfynol yn gwadu fod y Saeson yn rhagori arnom mewn moesoldeb, ond yn hollol i'r gwrthwyneb, fel y gellir gweled ond edrych ar ystadegau y llywodraeth o berthynas i droseddau.'

Ac eto, yn fentrus -

'y mae yn ffaith warantedig fod ein llenyddiaeth yn burach, ein capelydd a'n Hysgolion Sabbathol yn amlach ac yn llawnach, a'n moesoldeb cyhoeddus yn rhagorach nag un genedl yn Ewrop.'

Pwy oedd Taranwr?

Eironi'r ymryson yw mai ychydig iawn a'i gwelodd. Faint o Gymry ddarllenodd yr ysgrifau golygyddol yn y *Times*, a phwy ymhlith staff y *Times* ac awduron yr ysgrifau allai ddarllen ymateb *Y Faner*, neu hyd yn oed wyddai amdano? A phwy oedd awdur yr ysgrifau? Mae'r llifeiriant ffyrnig o rethreg Fictoraidd yn rhoi darlun o gymeriad ffroenuchel mewn gwisg fore, gwritgoch a chorffog, yn cydio ymyl ei gôt yn ddramataidd, ei ruddiau yn crynu yn ei ffyrnigrwydd. Nid felly o gwbl. Nid oedd y *Times* yn datgelu enwau awduron yr ysgrifau golygyddol, ond trwy garedigrwydd swyddfa'r golygydd ac archifydd y *Times* darganfuwyd yn ddiweddar mai y Parchedig



Dr Henry Wace (1836-1924), Deon Caer-gaint -
© Canterbury Museums and Galleries

Henry Wace (1836-1924) ydoedd, curad ifanc yn eglwys St James's, Piccadilly ar y pryd – mab y mans, disgybl yn Marlborough a Rugby, cyfnod yn King's College Llundain, a gradd o Rydychen (Brasenose).⁽⁹⁾ Yn ddiweddarach cafodd yrfa ddisglair fel athro hanes eglwysig a phrifathro King's College, Llundain a wedi hynny fel Deon Caer-gaint. Roedd yn aelod amlwg o adain efengylaidd Eglwys Loegr.⁽¹⁰⁾ Bu'n un o nifer o ohebwy'r annibynnol – clerigwyr,

cyfreithwyr, ysgolheigion, gwleidyddion – a ddewiswyd gan John Thomas Delane, golygydd awdurdodol y *Times*, i baratoi ysgrifau golygyddol.

Mae'r ffordd a ddewiswyd y curad ifanc yn ddiddorol. Ym mis Mawrth 1863 ysgrifennodd Henry Wace lythyr at olygydd y *Times* i brotestio yn erbyn y ffordd y gweithredodd yr holl esgobion yn achos Dr J W Colenso, Esgob Natal, a gyhuddwyd o gyhoeddi heresi yn ei draethodau ar y Pumllyfr a Llyfr Josua.⁽¹¹⁾ Nid oedd Wace yn cydfynd ag agweddau rhyddfrydol Colenso, ond gwrthwynebai'n gryf y 'Memorial' a ddanfonwyd ato gan yr esgobion.⁽¹²⁾ Cyhoeddwyd llythyr Wace yn ddiennw gyda'r prif lythrennau 'HW' ar ei waelod, a roedd gwir angen am hynny, gan mai dyma gurad ifanc yn rhoi'r esgobion yn eu lle. Dywedodd yn blwmp ac yn blaen:

'Sir, Will you permit me, as a clergyman of the Church of England, and therefore directly and personally interested in the matter, to say a few words on the Bishops' Memorial to Dr Colenso and its relation to us? I beg to question entirely the right of the Bishops to publish any such document.'

AC YNA

'They [yr esgobion] have no authority whatever to decide the meaning of the Articles. I have signed the Articles, and I am bound by their literal and grammatical sense; but I am not bound by that which the Bishops conceive to be so, and I protest against the attempt to restrict the meaning of public formularies by those who have no public commission to do it.'

'We have a right to demand that those questions shall be settled fairly and distinctly by the lawful authorities..... But the Bishops are not the lawful authorities.' HW London, March 2

Gwnaeth arddull cynnil ac uniongyrchol Wace argraff ffafriol ar Delane, a gwahoddodd Wace i fod yn un o'i ysgrifenyddol golygyddol, trefniant a barhaodd am yn agos at ugain mlynedd.

Teyrnasiad Delane

Cadwai Delane afael tyn a manwl dros bopeth ymddangosai yn y *Times*, a mewn ysgrif yn y *Cornhill Magazine* flynyddoedd wedyn adroddodd Wace ei atgofion o deyrnasiad Delane:

'He insisted on being himself responsible for all news supplied to the public: he was solely responsible for the interpretation of those news, and for the comments thereon...'

'There were (in late evening) generally two or three leader writers in attendance, in separate rooms, and in a short time after his arrival he would send to each of them, unless they had been previously instructed, the subject he wished to treat...'

'If it were a matter of difficulty or doubt he would soon come into the writer's room and in a few minutes conversation indicate the line which it was desirable to take, and the considerations which the writer should have in the background.'⁽¹³⁾

Cadwodd Wace yr holl gyfarwyddiadau a dderbyniodd gan Delane, ond ni ddaethpwyd o hyd iddynt yn yr archifau dderbyniodd ei bapurau pan fu farw.⁽¹⁴⁾ Mae copiâu o rai o gyfarwyddiadau Delane yn archif News International, y mwyafrif ohonynt o'r blynyddoedd 1869 a 1874-1877, ond nid yw'r catalog yn cyfeirio at rai ym mis Medi 1866. Os oedd disgrifiad Wace o fanylder cyfarwyddiadau Delane yn gywir, y mae lle i ni gredu i Wace dderbyn awgrymiadau a oedd yn feirniadol tu hwnt, ac yn galw am ddarlun anffafriol iawn o'r Cymry a'u hiaith.

Cymhelliad Henry Wace

Beth bynnag awgrymodd Delane, roedd Wace, i bob golwg, wrth ei fodd tra'n llunio'r ddwy ysgrif ar yr Eisteddfod. Beth oedd ei gymhelliad? Nid 'Câr dy gymydog fel ti dy hun' bid sicr. Nid llais unig ydoedd ei lais o bell ffordd. Roedd presenoldeb cenedl werinol a siaradai iaith annealladwy, a gefnai, y mwyafrif ohonynt, ar grefydd y wladwriaeth, ac a gadwai draw o brif ffrwd y gymdeithas uniaith Saesneg, yn ddirgelwch llwyr, a thestun dicter, i Henry Wace a llawer o'i debyg. Rhoddwyd llais croch i'r teimpladau hyn yn y wasg, ac yn ei astudiaeth o'r Eisteddfod yn chwedegau'r ganrif bu'r diweddar Hywel Teifi Edwards wrthi'n egniol yn pori colofnau papurau newyddion a chylchgronau Lloegr, a chasglodd lu o gyfeiriadau dirmygus, nawddogol neu fychanus at Gymru, y Cymry, a'r Eisteddfod.⁽¹⁵⁾ Dyma esiampl o'r *Spectator*:

'All the harm we have done them [y Cymry] is feed them well, dress them decently, and offer them a civilized language. The first two they receive gladly – the last they may take or leave alone: but if they are wise they will forget their prejudices and throw their "language" away after the skins which once clothed their noble forms.'⁽¹⁶⁾

Y Llyfrau Gleision

Ond rhaid mai rhywbeth mwy na chasgliad o ragfarnau anwybodus oedd yn gwenwyno potel inc Henry Wace. Cof y canrifoedd cythryblus gynt? Helyntion

Rebecca? Ymgyrchoedd y Siartwyr? Oedd hyn yn ddigon i esbonio cyflwr ei feddwl tra'n paratoi ei ysgrifau i'r *Times*? Prif destyn rheini oedd yr iaith Gymraeg, a ffolineb y Cymry o lynu wrthi, a phrif arf eu hawdur oedd ei arddull a'i eirfa. Mae hynny'n ein harwain ni yn anochel at y Llyfrau Gleision, sef adroddiad y comisiwn a benodwyd gan bwyllgor addysg y Cyfrin Gyngor ym 1846 i ymchwilio cyflwr addysg yng Nghymru. Roedd pob un o'r tri chomisiynydd yn eglwyswr; yn ddi-Gymraeg; yn anwybodus o ddiwylliant y Cymry; yn barod iawn ei farn. Aethant ymhell y tu hwnt i derfyn eu maes llafur i gynnwys sylwadau ar natur gelwyddog y Cymry, eu diogi, eu meddwdod, a'u pechodau rhywiol. Gwelodd yr Athro David Williams gysylltiad:

'To the reports [y Llyfrau Gleision] may be traced the antipathy felt in England towards Wales, an antipathy reflected, for example, in the attack of the *Times* on the Eisteddfod in 1866, when the Welsh language was described as an anachronism, and Welsh literature as barbaric.'⁽¹⁷⁾

Dywedir uchod mai prif destun ysgrifau Wace ar yr Eisteddfod oedd ffolineb y Cymry i lynu wrth eu mamiaith, a phrif arfau yr awdur oedd ei arddull a'i eirfa. Bron y gellid priodoli'r geiriau yma i ran helaeth o adroddiadau'r comisiynwyr. Yn ei dadansoddiad fforensig o iaith y Llyfrau Gleision, daeth Gwyneth Tyson Roberts i'r casgliad bod geirfa gynhyrfiol [highly emotive vocabulary] y comisiynwyr yn tansellio eu hawliad ymhlyg [tacit claim] i awdurdod, gwrthrycholdeb a gallu.⁽¹⁸⁾ Gwelwn arwyddion o'r un clefyd yn yr enghreifftiau isod o arddull a geirfa Wace:

'The Welsh language is the curse of Wales ...'

'Their antiquated and semi-barbarous language ...'

'Wales ... inhabited by an unenterprising people ... all the progress and civilization of Wales has come from England'

'There are practices tolerated and even cherished among them which are not known and would be put down at once in most parts of England'

A detholiad byr o'i eirfa:-

anachronous; barbaric; dead language; follies; foolish interference; isolated language; monstrous folly; narrow and provincial prejudice; nonsense; sheer ignorance; unintelligible; unpronounceable

Arddull a geirfa ysgrifau eraill Wace

Nid yw hyn yn profi y tu hwnt i amheuaeth bod Wace yn gyfarwydd â'r Llyfrau Gleision, ond mae'n ein procio ni i chwilio'n ddyfnach. Oedd yr anoddefgarwch a'r ffyrnigrwydd a welsom yn ei ysgrifau yn nodweddiadol o'i gymeriad a'i fynegiant yn gyffredinol? Cawsom flas o hynny yn ei lythyr ar achos Colenso, ond nid oedd hwnnw'n agos mor ymosodol. Oedd yna arwyddion o'r un duedd yn ei ysgrifau golygyddol eraill? Ym 1866 cyhoeddwyd 126 o'i ysgrifau, 19 ohonynt ym mis Medi (gan gynnwys y ddwy ar yr Eisteddfod) yn trin ystod eang ac amrywiol o destunau, megis y geri yn Llundain; cyfundeb ariannol arfaethedig rhwng Ffrainc, Gwlad Belg, y

Swistir a'r Eidal; cyflwr ysbytai'r tlotai; adroddiad Bwrdd y Tlodion; a sefyllfa seciwlar y Babaeth a chylchlythyr diweddar yr Archesgob Manning⁽¹⁹⁾. Yn ei ysgrifau ar rai o broblemau cymdeithasol yr oes – ystadegau marwolaethau, cyflwr echrydus tai annedd, a Deddf y Tlodion – ysgrifennai yn wybodus a grymus. Yn ei ysgrif ar gylchlythyr Manning roedd yn fwy ymosodol. Gwyddai, mae'n debyg, i Manning dreulio ei yrfa cynnar fel clerigwr yn Eglwys Loegr, ond ym 1851 cafodd ei dderbyn i Eglwys Rufain, ac o fewn pedair mlynedd ar ddeg roedd yn Archesgob Westminster.⁽²⁰⁾ Roedd hyn yn ddigon i beri i Wace hogi ei gwilsyn, ond nid i'r un graddau â'r ddwy ysgrif ar yr Eisteddfod yr oedd yn rhyddhau cwmwl gwenwynol o senoffobia.

Mae'n amlwg y bu Wace yn ddiwyd iawn fel gohebydd, ac mae un hanesyn amdano sydd, os yw'n wir, yn taflu llygedyn o olau ar ei arferion gwaith. Flynyddoedd ar ôl ei farwolaeth cyhoeddwyd atgofion amdano a briodolwyd i gyn-olygydd y *Times*, sef Wickham Steed:

'.....[Steed] delighted me with stories connected with Printing House Square, one (I write from memory) being of Dean Wace who in years gone by wrote leading articles regularly, and expected to find a bottle of port invariably on the writing table to greet him on arrival and who always consumed it in the process of writing his article.'⁽²¹⁾

Os hynny, hwyrach y llaciodd y botelaid ei dafod ar y nosweithiau pan ysgrifennwyd yr ymosodiadau gwyllt ar yr Eisteddfod druan.

Ei gymeriad

Mae cyfeiriadau cyhoeddus at gymeriad ac ymddygiad Wace yn gymysg – rhai yn gadarnhaol ac eraill yn feirniadol. Hwyrach mai'r teyrngedau iddo pan fu farw, a barn ei gofianwyr, yw'r ffynonellau mwyaf defnyddiol, ond yn fynych roedd tuedd i bwysleisio'r rhinweddau ac i osgoi'r gwendidau. Yng nghylchoedd Eglwys Loegr dywedwyd i ddoniau Wace – ei gwrteisi, ei hiwmor a'i degwch – ennill ymddiriedaeth llawer nad oedd yn cydfynd â'i farn. Ym mywyd teuluol roedd yn sgysiwr ffraeth a deniadol ac yn lletywr hael.⁽²²⁾ Yn ei ddyddiau fel Deon Caer-gaint cafodd enw fel dadleuwr grymus a gwrthwynebwr di-flewyn-ar-dafod i ddatblygiadau diwinyddol neu litwrgïol, ac fel ymrysonwr ymosodol. Cafwyd tystiolaeth ddadlennol iawn gan y Gwir Barchedig Randall Thomas Davidson, Archesgob Caer-gaint, yn ei deyrnged faith a hael yn angladd Wace yn yr eglwys gadeiriol ar 12 Ionawr 1924:-

'[Wace] was downright, straightforward, frankly unaccommodating in his adherence to the principles and teaching which he had made his own.

He was perhaps apt sometimes, like other redoubtable champions, to pay scant respect to even the most learned and thoughtful of his opponents.'⁽²³⁾

Ac yna, yn hynod mewn achlysur fel hyn, ac o flaen yr holl deulu, galwodd yr Archesgob i gof ei brofiad o'r offeiriad afreolus:-

'He was no smooth tongued, kid-gloved controversialist. He would sometimes use a rapier in debate, but for the most part his weapon in the controversies of the last ten years has been mace or battle-axe. I am one of those whose armour, such as it is, has received the blows. But they were the blows of a comrade in the faith.'

Teimlodd yr Eisteddfod Genedlaethol hithau ergydion tebyg ganddo yn ei dydd, ergydion a fwriadwyd i fod yn farwol i'r iaith Gymraeg.

Mewn ychydig eiriau – gŵr galluog ydoedd, ymosodol ei natur ac anodd ei drin. Seiliwyd ei frygowthan ar y stereoteip o Gymreictod a rannai â llawer o aelodau ei ddosbarth. Agorwyd ei ffloidiart gan amharodrwydd y Cymry, fel y gwelai, i gydymffurfio â'i syniadau am saerño cymdeithasol. Nid oedd gobraith i'w weld yn croesi'r Tir Neb yna.

Ralph Lingen eto?

Fel y soniwyd o'r blaen, ni ddaethpwyd o hyd i gyfarwyddiadau Delane i Wace. Byddai'r rhai ar yr Eisteddfod yn datgelu yr agwedd a'r driniaeth y dymunai weld, a hwyrach enwau unigolion a allai gynnig gwybodaeth. Mae yma bosibilrwydd pryfoclyd. Un o'r rhai a fu'n paratoi ysgrifau golygyddol i'r *Times* yn gyson oedd Robert Lowe AS, a fu wedi hynny yn Ganghellor y Trysorlys i Gladstone, ond yn y chwedegau yn is-lywydd pwyllgor y Cyfrin Gyngor ar addysg. Roedd Matthew Arnold, cyfaill yr Eisteddfod, yn un o'r arolygwyr ysgolion yn adran Lowe, ac un a brotestiodd yn ddewr yn erbyn y cynllun 'tâl yn ôl canlyniad' a osododd Lowe ar yr ysgolion ym 1862. Un o brif weision sifil Lowe oedd neb llai na Ralph Lingen, awdur un o'r Llyfrau Gleision.⁽²⁴⁾ Ymddengys na fu'r *furor* ym 1847 yn rhwystr ar ei yrfa wedi hynny, ac yn yr adran addysg Lingen oedd 'gorfodwr' Lowe. Mae'n ddengar tu hwnt i ddyfalu a wnaeth Delane neu Lowe awgrymu i Wace y gallai Lingen ddweud ei brofiad am ymlyniad afresymol y Cymry i'w hiaith, a ffolineb cefnogaeth Arnold iddynt. Nid oes llawer o amheuaeth y byddent o'r un farn, ond dim ond dyfaliad yw hyn, ysywaeth, ac os na ddaw cyfarwyddiadau Delane i'r golwg, erys y trywydd yma'n oer, am y tro.

'Er gwaetha pawb a phopeth ry'n ni yma o hyd'

Emrys Wynn Jones

NODIADAU

1. *The Times*, 23/08/1866, t 7, col E
2. *The Times*, 06/09/1866, t 5, col G
3. *The Times*, 08/09/1866, t 8, col E, 3rd leader
4. *ibid.*
5. *The Oxford Companion to the Literature of Wales* (OUP, 1986) t 311
6. *The Times*, 14/09/1866, t 9, col C
7. *The Times*, 14/09/1866, t 6, col F, 4th leader
8. *Baner ac Amserau Cymru*, 19/09/1866
9. *The Times's* Editorial Diary, 1866, Times Newspapers Limited Archive, News International – darganfod enw Henry Wace
10. *Oxford Dictionary of National Biography* (OUP 2004) (*ODNB*) ar gyfer bywyd a gwaith Henry Wace
11. *The Times*, 04/03/1863, t 9, col D
12. *The Times*, 02/03/1863, t 5, col E, ar gyfer y 'Memorial'; *ODNB*, Bishop J W Colenso (1814-1883), ar gyfer hanes yr achos yn ei erbyn
13. 'John Thadeus Delane', by the Dean of Canterbury, *Cornhill Magazine*, January 1909, t 93
14. *The Times*, 10/01/1924, t 7, col A, 'Wace carefully preserved the editor's "inimitable notes" of the line to be taken by the leader writer.'
15. *Gŵyl Gwalia: Yr Eisteddfod Genedlaethol yn Oes Victoria, 1858-1868*, Hywel Teifi Edwards (Gomer, 1980)
16. *The Spectator*, 12/09/1863, t 2475
17. *Modern Wales*, David Williams (London, John Murray) 1950, t 274
18. *The Language of the Blue Books: The Perfect Instrument of Empire*, Gwyneth Tyson Roberts (University of Wales Press, 1998) t 234-9
19. Archifydd, News International Ltd – rhestr o ysgrifau Wace ym mis Medi 1866, a'r cyfanswm am y flwyddyn
20. *ODNB*, Henry Edward Manning (1808-1892), Cardinal Archbishop of Westminster, 1865
21. *The Times*, 19/01/1956, t 12, col B
22. *ODNB*, Henry Wace
23. *The Times*, 14/01/1924, t 15, col D - E
24. *ODNB*, Ralph Robert Wheeler Lingen, (Baron Lingen), (1819-1905)